# Trwydded Ranbarthol Channel 3

Trwydded a roddir i ITV Broadcasting Limited i ddarparu gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol o dan ran 1 o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) a Rhan 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

## Y DRWYDDED

1. DRWY HYN MAE'R SWYDDFA GYFATHREBIADAU ("OFCOM") WRTH ARFER Y PWERAU A RODDWYD IDDO GAN RAN I O DDEDDF DDARLLEDU 1990 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF DARLLEDU 1996 A DEDDF CYFATHREBIADAU 2003 YN RHOI I ITV BROADCASTING LIMITED (CWMNI RHIF 00955957) (Y "TRWYDDEDAI") DRWYDDED (Y "DRWYDDED") YN AMODOL AR YR AMODAU A NODIR YN YR ATODLEN A'R ATODIAD (YR "AMODAU"), I DDARPARU'R GWASANAETH CHANNEL 3 RHANBARTHOL (FEL Y'I DIFFINNIR YN AMOD 1 RHAN 1 O ATODLEN Y DRWYDDED HON).
2. Rhoddir y Drwydded hon ar sail sylwadau'r Trwyddedai bod y datganiadau a nodir yn eu datganiad diweddaraf i Ofcom ynghylch eu materion a wnaed gan y Trwyddedai yn wir hyd eithaf gwybodaeth a chred y Trwyddedai.
3. Dyddiad dyfarnu'r Drwydded hon yw 17 Rhagfyr 2004 a dyma'r dyddiad y rhoddwyd y Drwydded gyntaf. Dyddiad cychwyn y Drwydded hon yw 28 Rhagfyr 2004 (y "Dyddiad Cychwyn") a dyma'r dyddiad y daeth y Drwydded i rym am y tro cyntaf. Yn amodol ar yr Amodau, bydd y Drwydded yn parhau mewn grym ar gyfer y Cyfnod Trwyddedu (fel y'i diffinnir yn Amod 1 o Ran 1 o'r Atodlen i'r Drwydded hon).
4. Mae'r Atodlen a'r Atodiad i'r Drwydded hon yn rhan ohoni.
5. Trosglwyddwyd y Drwydded i'r Trwyddedai ar 5 Tachwedd 2008.

**LLOFNODWYD AR GYFER OFCOM AC AR RAN OFCOM AR 12 MEDI 2024**



**Vikki Cook**

**Cyfarwyddwr Polisi Darlledu a'r Cyfryngau**